# GWIRIADAU DBS – NEWIDIADAU PWYSIG

**Newidiadau i Weithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant o 1 Medi 2026**

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

**Efallai eich bod wedi clywed am newidiadau diweddar yn ymwneud â gwiriadau DBS a Gweithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant.**
**Peidiwch â phoeni! Rydym wedi llunio'r wybodaeth isod i egluro beth sydd wedi newid a beth y gallai hyn ei olygu i'ch eglwys ac i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant.**

---

**Beth sydd wedi newid?** O **1 Medi 2026**, mae newid wedi bod i'r diffiniad o **Weithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant**. Mae'r **eithriad goruchwyliaeth wedi'i ddileu**. Yn flaenorol, nid oedd pobl a oedd dan oruchwyliaeth drwy'r amser wrth weithio gyda phlant yn cael eu hystyried i fod mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.
O 1 Medi 2026, bydd gweithwyr a gwirfoddolwyr sy'n addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant yn **ddigon aml** h.y. yn **wythnosol**, neu **fwy na thair gwaith mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod**, neu **unwaith dros nos**, rhwng 2am a 6am, yn cael eu hystyried i fod yn gwneud Gweithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant, p'un a ydynt dan oruchwyliaeth ai peidio.
Mae'r rheolau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn ymgymryd â Gweithgaredd a Reoleiddir oherwydd eu bod yn darparu gofal personol yn parhau heb eu newid.
Bydd y rhai sy'n gweithio gyda phlant yn **llai aml** yn parhau i fod mewn Gweithgaredd nas Rheoleiddir, oni bai eu bod hefyd yn darparu gofal personol.
Mae'r newid hwn yn effeithio ar Weithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant yn unig. Nid oes newid i'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir gydag Oedolion.

---

**Sut fydd hyn yn effeithio ar fy eglwys?** Mae llawer o bobl sy'n gweithio gyda phlant ar hyn o bryd yn **gweithio heb oruchwyliaeth** ac felly eisoes yn bodloni'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir – ni fydd unrhyw newid i'r rhain.
Fodd bynnag, o **1 Medi 2026**, bydd pobl sy'n gweithio gyda phlant yn **ddigon aml** (gweler uchod) ac sydd dan oruchwyliaeth hefyd yn ymgymryd â Gweithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant.
Mae hyn yn golygu y byddant angen **gwiriad DBS Manwl gyda gwiriad o'r Rhestr Wahardd - Plant**.

---

**A fydd angen i mi gyflwyno cais DBS newydd?** Bydd pob cais DBS newydd a gyflwynir o 1 Medi 2026 yn dilyn y rheolau newydd.
Ar gyfer y rhai sydd wedi symud i fod yn ymgymryd â Gweithgaredd a Reoleiddir o ganlyniad i'r newidiadau hyn, dylid asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rôl a gwneud cais am y lefel briodol o wiriad DBS.
Dylai gwirfoddolwyr **Agor y Llyfr** sy'n cyflawni'r rôl yn **ddigon aml** gael gwiriad DBS newydd os nad yw eu gwiriad presennol yn cynnwys gwybodaeth am y rhestr wahardd.

---

**Gweithgaredd a Reoleiddir** Mae Gweithgaredd a Reoleiddir yn waith na all person sydd wedi'i wahardd ei wneud yn gyfreithiol. Mae unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant yn cyflawni trosedd os yw'n ymgymryd â Gweithgaredd a Reoleiddir, ac mae sefydliad sy'n caniatáu, yn fwriadol, i unigolyn sydd wedi'i wahardd ymgymryd â gwaith o'r fath hefyd yn torri'r gyfraith.

---

**Rhagor o wybodaeth** Gallwch ddarllen mwy am y newidiadau hyn ar wefan **GOV.UK**:
Newid i'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir gyda phlant o 1 Medi 2026
Os nad ydych yn siŵr a yw'r newidiadau hyn yn effeithio'r gwaith yn eich eglwys, **cysylltwch â'r** Panel **am gyngor.**

---

**Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus** Bydd **Adran 2: Recriwtio a Dethol Mwy Diogel** o'r Llawlyfr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae Adran 2 ar gael ar wefan y Panel.
Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf wrth ystyried gwiriadau DBS a recriwtio mwy diogel.

---

**Y Panel Diogelu Cydenwadol - Os ydych yn ansicr - plîs gofynnwch. Rydym yma i helpu.**

# DBS CHECKS – IMPORTANT CHANGES

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

**Changes to Regulated Activity with Children from 1 September 2026**

**You may have heard about some recent changes relating to DBS checks and Regulated Activity with Children.**
**Please don't panic! We've put together the information below to explain what has changed and what it may mean for your church and those working with children.**

---

## What has changed?
From **1 September 2026**, there has been a change to the definition of **Regulated Activity with Children**. The **supervision exemption has been removed**. Previously, people who worked with children but were **always supervised** were not considered to be undertaking Regulated Activity.
From 1 September 2026 workers and volunteers who teach, train, instruct, care for or supervise children **frequently** i.e. **weekly**, or **more than three times in any 30-day period**, or **once overnight**, between 2am and 6am, will be considered to be undertaking Regulated Activity with Children, whether or not they are supervised.
The rules for those undertaking Regulated Activity because they provide personal care remain unchanged.
Those working with children **infrequently** will remain in non-regulated activity, unless they are also carrying out personal care.
This change only impacts Regulated Activity with Children. No change is being made to the definition of Regulated Activity with Adults.

---

## How will this affect my church?
Many people who work with children are currently **unsupervised** and therefore already meet the definition of Regulated Activity – these remain unchanged.
However, from **1 September 2026**, people who work with children **frequently** (see above) and under supervision will also be classed as undertaking Regulated Activity with Children.
This means that they will require an **Enhanced DBS check with a check of the Children's Barred List**.

---

## Will I need to submit a new DBS application?
**All new DBS applications submitted from 1 September 2026 will follow the new rules.**
For individuals whose roles have moved into Regulated Activity as a result of these changes, the risks associated with the role should be assessed and the appropriate level of DBS check applied for.
**Open the Book** volunteers who undertake the role **frequently enough** should have a new DBS check if their existing check does not include barred-list information.

---

## Regulated Activity
is work that a barred person **cannot legally undertake**.
An individual who is barred from working with children commits an offence if they undertake Regulated Activity, and an organisation that knowingly allows a barred individual to undertake such work is also breaking the law.

---

## Further information
You can read more about these changes on the **GOV.UK website**:
Change to the definition of regulated activity with children from 1 September 2026
If you are unsure whether these changes affect a particular role within your church, **please contact the** Panel **for advice.**

---

## Safeguarding Vulnerable Groups Handbook
We are currently updating **Section 2: Safer Recruitment and Selection Procedures** of the Handbook to reflect these changes. Section 2 is available on the Panel website
Please make sure you are using the updated version when considering DBS checks and safer recruitment procedures.

---

**The Interdenominational Safeguarding Panel - If you are unsure – please ask. We are here to help.**